

Cloch Dewi

Cyf 10: Rhif 2

Mai 2026

Cydnabyddiaeth brenhinol i'n wardeniaid!



*Delyth Davies a
Rhys Jones ger
bron Eglwys
Gadeiriol
Llanelwy ar Ebrill
2ail 2026*

*Manylion ar
dudalennau 2/3*

Eglwys Dewi Sant Caerdydd

eglwysdewisant.org.uk

 EglwysDewiSant

 @eglwysdewisant

 Eglwys Dewi Sant
Caerdydd

Yn y rhifyn hwn

Rhys a Delyth yn derbyn
y cablyd brenhinol

Llythyr y Ficer

Teils EDS

Penawdau o Festri'r
Pasg

Tud

2/3

4/5

6/7

8

Gŵyl Aberdaron 2026

Atebion Cwis Beiblaidd

Pobl y Plwy

Dysg i ni weddïo

Ar gyfer eich dyddiadur

Tud

9

9

10/11

12

12

Os am ragor o wybodaeth am
Eglwys Dewi Sant:

Ficer: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd

Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

Curad: Y Parchedig Athro Lloyd
Llewellyn-Jones

Diwrnod i'w gofiol!

Mynychodd y Brenin a'r Frenhines Wasanaeth y Cablyd Brenhinol yng Nghadeirlan Llanelwy, ddydd Iau 2 Ebrill, sef y tro cyntaf i'r achlysur gael ei gynnal yng Ngogledd Cymru, a dim ond yr ail dro erioed yng Nghymru, mewn 800 mlynedd.

Yn ystod y gwasanaeth, cyflwynodd y Brenin roddion y Cablyd Brenhinol i tua 77 o ddynion a 77 o fenywod, yn bennaf o Gymru, gan gynnwys Delyth a Rhys. Mae Arian y Cablyd yn rhodd symbolaidd a roddir i gydnabod gwasanaeth Cristnogol rhagorol y derbynwyr ac am wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn eu cymunedau lleol. Cyflwynodd Ei Fawrhydi dau bwrs i'r derbynwyr, yn cynnwys yr Arian Cablyd unigryw. Yn y pwrs gwyn roedd set o ddarnau arian Cablyd, sef arian wedi'u bathu'n arbennig, yn gyfanswm o 77 ceiniog, i gyfateb i oedran y Brenin, ac yn y pwrs coch 'roedd darn arian £5 i goffáu 100 mlynedd ers geni'r Frenhines Elizabeth II, a darn 50c sy'n dathlu 50 mlynedd ers sefydlu Ymddiriedolaeth y Brenin.


Dywedodd Esgob Llanelwy, y Gwir Barchedig Gregory Cameron: "Mae'r Cablyd Brenhinol yn anrhydeddu gorchymyn Crist y dylem wasanaethu ein gilydd. Mae hyn yn cael ei fynegi yn y rhoddion y bydd y Brenin yn eu rhoi i'r 154 o bobl sydd wedi gwasanaethu eu cymunedau oherwydd eu ffydd Gristnogol. Mae'n achlysur hynod ystyrlon yr ydym yn falch o'i groesawu i Llanellwy."

'Roedd y gwasanaeth eleni yn cynnwys cerddoriaeth a gomisiynwyd yn arbennig gan gyfansoddwyr a cherddorion Cymreig, gan ddathlu dychweliad y Cablyd Brenhinol i Gymru. Yn ogystal, 'roedd y gwasanaeth yn gweld defnydd o Groes Cymru yn yr orymdaith, rhodd gan Ei Fawrhydi y Brenin i Gristnogion Cymru. Defnyddiwyd y Groes hon i arwain yr orymdaith yn Abaty Westminster ar gyfer ei Goroni yn 2023, ac mae'n cynnwys darn o'r Wir Groes, rhodd i'r Brenin gan Ei Sancteiddrwydd Pab Ffransis, y credir ei fod yn rhan o'r groes y croeshoeliwyd Iesu arni.


Gellir olrhain y Cablyd Brenhinol yn Lloegr yn ôl i'r 13eg ganrif, gyda'r cofnod cyntaf o ddosbarthiad Brenhinol yn Knaresborough, Gogledd Swydd Efrog, gan y Brenin Ioan yn 1210. Ers y 15fed ganrif, mae nifer y derbynwyr wedi bod yn gysylltiedig ag oedran y Sofran.

Mae derbynwyr y Cablyd Brenhinol yn cael eu dewis o esgobaethau Eglwys Loegr, a phartneriaid Anglicanaidd ac ecwmenaidd ledled y DU. Eleni, dewiswyd y derbynwyr o chwe esgobaeth yng Nghymru (Abertawe ac Aberhonddu, Llanelwy, Bangor, Tyddewi, Llandaf a Mynwy) ynghyd â phedair esgobaeth yn Lloegr sy'n agos at Gymru neu sy'n ffinio â hi (Caer, Henffordd, Lichfield, Sodor a Manaw).

(Gyda diolch i Materion Llandaf)



Rhys Jones, Esq.,
Eglwys Dewi Sant
St Andrew's Cresc
Cardiff,
CF10 3DD



Royal Almonry Office
Buckingham Palace
London SW1A 1AA
020 7930 4832

29 Ionawr 2026

Annwyl Mr. Jones,

Dydd Iau, yr 2^{il} o Ebrill 2026, bydd Gwasanaeth Cablyd y Brenin yn cael ei gynnal yn Eglwys Gadeiriol Llanellwyl. Bydd y Rhoddion Cablyd, sy'n ddarnau arian wedi eu bathu yn arbennig, yn cael eu dosbarthu i'r Derbynwyr, sy'n bobl a ddewiswyd o bob rhan o Gymru, yr Alban, Caer, Henffordd, Caerlwythgoed a Sodor a Manaw. Mae union nifer y Derbynwyr yn hafal i oedran y Brenin ac ar yr achlysur hwn felly dewiswyd 77 o ddynion a 77 o fenywod i ddod i Wasanaeth Cablyd y Brenin i dderbyn y Rhoddion Cablyd.

Mae'n bleser gennym eich hysbysu eich bod wedi'ch enwebu i dderbyn Rhodd Cablyd a gobeithio y byddwch yn teimlo'n abl i dderbyn yr anrhydedd hon.

Y llythyr oedd
yn disgwyl Rhys
a Delyth yn
festri Eglwys
Dewi Sant ym
mis Ionawr

Llythyr y Ficer

Annwyl Gyfeillion,

Yr ydym yn y rhan honno o'r flwyddyn sydd rhwng y Dyrchafael a'r Sulgwyn; rhwng ymadawiad Iesu a dyfodiad yr Ysbryd Glân. Cyn ei esgyniad rhoddodd Iesu orchymyn i'w ddisgyblion, y gorchymyn i gyhoeddi'r efengyl ac i barhau yn y gwaith a ddechreuodd efe. Ar y Sulgwyn cofiwn am yr Ysbryd Glân yn disgyn ar y disgyblion a'u grymuso i gyflawni'r gorchymyn hwnnw. Wrth i ni gadw'r Sulgwyn dathlwn ben blwydd yr eglwys, a chawn ein hatgoffa mai ein gwaith ni heddiw yw parhau gyda'r gwaith a ddechreuodd efe. Rhoddodd Iesu i ni'r gorchymyn mawr: "Câr yr Arglwydd Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl meddwl a châr dy gymydog fel ti dy hun" (Mathew 22:37 – 40). Fe welwn yma fod gennym ddwy ddyletswydd fel Cristionogion, sef gwasanaethu Duw a gwasanaethu cyd-ddyn. Yn ganolog i'r bywyd Cristionogol y mae'r gair 'gwasanaeth'. Mae gwasanaethu Duw trwy ein haddoliad, ein gweddi a'n mawl a gwasanaethu eraill mewn cariad yn ddwy ochr o'r un geiniog.

Un o nodweddion gweinidogaeth Iesu oedd ei barodrwydd i fynd at y rhai yr oedd eraill, fel y Phariseaid a'r Offeiriaid, yn ystyried yn halogedig, y bobl hynny oedd yn byw ar gyron cymdeithas. Wrth fynd atynt, roedd Iesu yn rhannu cyfeillgarwch a chariad â'r rhai oedd yn meddwl eu bod y tu hwnt i ofal a chariad eraill a chariad Duw. Mae'r agwedd ganolog hon o eiddo Iesu wedi ysbrydoli'r Eglwys ar hyd y canrifoedd i weld mai rhan o'i gwaith yw gwasanaethu'r anghenus mewn cariad. Yn gynnar iawn ar ôl y Sulgwyn cyntaf fe ddarllenwn yn llyfr yr Actau am yr eglwys fore yn gosod strwythurau yn eu lle i sicrhau bod yr anghenus yn cael y gofal priodol (Actau 6:1-7).

Da inni gofio'r adeg hon o'r flwyddyn ein bod yn parhau i wneud y gwaith hwn. Bob blwyddyn ar yr adeg hon yn EDS cawn y cyfle i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol trwy godi arian. Mae'r arian a godir yn mynd tuag at brosiectau sydd o fudd i'n brodyr a'n chwiorydd yn rhannau tlodaf ein byd. Mae'n gyfle inni hefyd ddysgu am yr heriau megis newid hinsawdd,

strwythurau anghyfiawn, rhyfel a thrychinebau naturiol sy'n gwneud bywyd mor anodd, ac weithiau, yn annioddefol i gynifer yn ein byd. Trwy ymuno â gwaith Cymorth Cristnogol yr ydym mewn ffordd fach, ond un bwysig, yn dangos ein cariad a'n gofal tuag at ein cyd-ddyn, ac yn herio tlodi ac anghyfiawnder yn ein byd. Mae gobaith pan welwn ddaioni ar waith, a chredwn mewn 'grym anorchfygol gobaith'.

Onid beth am yr hyn sydd agosaf i gartref a'r anghenion sydd ar stepen ein drws. Gwyddom fod anghenion lleol yr un mor bwysig ag anghenion byd-eang.

Fe welwn â'n llygaid ein hunain yr anghenus sydd yn ein dinas, nifer ohonynt yn ddi-gartref, nifer ohonynt yn gaeth i alcohol neu gyffuriau, yn dioddef salwch meddwl ac oherwydd amgylchiadau, wedi syrthio trwy rwyd y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhesymau am ddi-gartrefedd yn gymhleth ac yn niferus yn ein cymdeithas weddol lewyrchus, ac ni ddylem ni fod yn gyflym i feirniadu. Yn wyneb cymaint o angen yn lleol, mae'n hawdd inni ddigalonni a chau ein llygaid. Ond nid digalonni yw ymateb priodol y Cristion, ond gweithredu'n ffyddiog ac yn obeithiol, gan wneud yr hyn y gallwn yn nerth yr Ysbryd Glân.

Ers degawdau bellach, mae aelodau eglwysi Cymraeg y ddinas wedi bod yn dod at ei gilydd ar brynhawn Sul yn festri'r Tabernacl, yr Ais i ddarparu te prynhawn i'r digartref a'r bobl fwyaf bregus yn y brif ddinas. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r te prynhawn wedi datblygu i fod yn Ganolfan Glyd. Tabernacl sy'n arwain ac yn cydlynu'r ganolfan, ac mae'r eglwysi Cymraeg eraill yn parhau i helpu o Sul i Sul, fel y gwna EDS yn ei thro. Yr un yw'r croeso cynnes a diamod a estynnir i bawb sy'n croesi'r trothwy, ond mae'r te prynhawn wedi troi'n ginio twym sy'n cael



ei ddarparu gan fwyty Giovanni drws nesaf i'r capel. Nid ar y Sul yn unig y darperir cinio twym ond ar brynhawn Mercher hefyd. Trwy gyd-weithrediad â chyngor Caerdydd, ac asiantaethau fel y Wallich mae'r Ganolfan Glyd wedi datblygu i fod yn lle, nid yn unig i gael pryd da o fwyd, ond yn ganolfan lle mae'r deiliaid yn gallu cael mynediad i wasanaethau eraill a chymorth priodol.

Mae trafodaethau yn mynd ymlaen rhwng y Ganolfan Glyd â'r Ystafell Fyw ar hyn o bryd i weld a oes modd cyd-weithio i gynorthwyo'r rhai sy'n ymgodymu â gor-ddibyniaeth, er enghraifft.

Weithiau mae mwy na 70 yn ymweld â'r Ganolfan Glyd ar brynhawn Sul, ond 40 i 50 sy'n arferol. I'r rhai sy'n gwirfoddoli o'r eglwysi, mae'n brynhawn llawn prysurdeb o weini bwyd a diod, golchi llestri a glanhau byrddau, a hefyd rhannu sgwrs gyda'r rhai sy'n cyfranogi. Mae'n waith blinedig ond y mae'n fuddiol ac yn fendithiol. Fel arfer, mae'r awyrgylch yn un cyfeillgar, hamddenol a diolchgar, ond o bryd i'w gilydd, mae anawsterau yn codi ac fe all hyn arwain at anniddigrwydd ac ymddygiad annerbyniol neu fygythiol. Ar yr achlysuron prin hynny, mae gan yr arweinydd Walkie Talkie sy'n cysylltu'n syth â'r heddlu sy'n ymateb yn brydlon. Ynghyd â lles y rhai sy'n defnyddio'r Ganolfan Glyd, mae'r Ganolfan yn cymryd lles a diogelwch y gwirfoddolwyr o ddifrif.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda gair o weddi sy'n gofyn am arweiniad yr Ysbryd Glân ac yn gosod popeth a wneir yng nghyd-destun gwasanaethu Duw trwy wasanaethu cyd-ddyn. Mae un o dîm y Tabernacl sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i oruchwylio'r cyfan yn cael ei benodi i fod yn arweinydd. Dyma'r unigolyn sy'n rhoi tasgau i bob gwirfoddolwr ac yn sicrhau bod rheolau iechyd a diolchgarwch, diogelu, a glendid bwyd yn cael eu cadw. Mae'r arweinydd hefyd yn gyfrifol am ymateb i anhawster. Mae hyn yn rhyddhau'r gwirfoddolwyr i ganolbwyntio ar eu tasgau penodol. Mae'n fy synnu i ar yr ochr orau pa mor broffesiynol, diogel ac effeithiol mae popeth yn gweithio yn y Ganolfan.

Mae'n galoniddid gweld y rhai a ddaw yno yn mwynhau pryd o fwyd a chyfle i dreulio amser mewn awyrgylch croesawgar a diogel.



Mae'r Ganolfan Glyd yn un esiamp! o wasanaeth tuag at gyd-ddyn yr ydym ni yn Eglwys Dewi Sant yn ei gefnogi mewn ffordd ymarferol iawn yn y ddinas hon. Mae'r fath brosiect yn ormod i un eglwys ei gyflawni, ond gydag eglwysi Cymraeg eraill y ddinas a gwahanol asiantaethau mae'n brosiect sydd yn ffynnu, ac yn ymateb mewn ffordd mor ymarferol i anghenion rhai o bobl fwyaf bregus y ddinas hon. Ceir un o'r adnodau mwyaf heriol i mi yn y Testament Newydd yn llythyr Iago; "Os yw brawd neu chwaer yn garpiog ac yn brin o fara beunyddiol, ac un ohonoch yn dweud wrthynt, "Ewch, a phob bendith ichwi; cadwch yn gynnes a mynnwch ddigon of fwyd", ond heb roi dim idynt ar gyfer rheidiau'r corff, pa les ydyw?" (Iago 2:15-16). Pa les yn wir? Da inni gofio, ar adeg y Sulgwyn, bod yr Eglwys Gristionogol yn cymryd yr hyn sydd ei angen ar y corff yr un mor ddifrifol â'r hyn sydd ei angen ar yr ysbryd, ac mae galw arnom heddiw i ymateb i'r ddau yn ôl ein gallu.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb o EDS a fu'n gwirfoddoli a hefyd sy'n parhau i wirfoddoli yng Nghanolfan Glyd y Tabernacl. Diolch yn arbennig i Judith Poulson am fod yn gysyllt rhyngom a chyd-lynu'r gwirfoddolwyr o EDS. Mae hyn yn waith pwysig ynddo ei hun. Wrth gwrs, nid yw'r math yma o wasanaeth at ddant pawb, ond os nad ydych wedi cael y profiad o wirfoddoli ac os yw'r erthygl fach hon wedi eich sbarduno i feddwl am wneud, mynnwch air â Judith. Mae'n rhyfedd beth allwn ni ei gyflawni fel eglwys yn lleol pan weithiwn gyda'n gilydd ac mewn partneriaeth ag eraill i wasanaethu ein cyd-ddyn mewn cariad yn nerth yr Ysbryd Glân.

Gyda phob bendith,

Dyfrig.

Teils EDS

Gwynn Matthews

Un nodwedd o bensaerniaeth Eglwys Dewi Sant nad yw'n amlwg iawn yw'r teils cain ar y llawr o amgylch yr allor. Maent yn nodweddiadol o bensaerniaeth llawer o eglwysi Eing-gatholig a godwyd yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Yn aml, ond nid yn ddieithriad, byddant yn dangos nifer o symbolau Cristnogol.

Dyma edrych ar wyth patrwm sydd i'w gweld ar y teils yn Eglwys Dewi Sant.

XP Chi Rho



Symbol sydd yn edrych fel y ddwy lythyren 'p' a 'X' ar ben ei gilydd.

Dwy lythyren o'r wyddor Roeg ydynt mewn gwirionedd, sef 'χ', ffurf Groeg o'r sain 'ch' (a elwir wrth yr enw 'chai') a 'ρ', ffurf Groeg o'r sain 'r' (a elwir wrth yr enw 'rho'). Dyma ddwy lythyren gyntaf y gair 'Crist' mewn Groeg, sef 'χριστος' ('Christos').

S. Paul

Yn eiconograffeg y saint dau gleddyf wedi eu croesi yw arwydd yr Apostol Paul. Mae un ohonynt yn cyrychioli cyfeiriad Paul at 'gleddyf yr ysbryd' yn ei epistol at yr Effesiaid (6.17) a'r llall yn cynrychioli'r cleddyf y cafodd ei ddienyddio ag ef pan dorrwyd ei ben i ffwrdd.



HIS



Mae'r monogram yma yn gyffredin iawn fel addurn mewn eglwysi sawl enwad, gan gynnwys capeli Anghydfurfiol. Mae'n deillio o dair llythyren gyntaf yr enw 'Iesu' mewn priflythrennau Groeg, sef ΙΗΣΟΥΣ.

Aethpwyd i dybio yn y gorllewin Lladinaidd mai priflythyren y sain 'h' oedd yr ail lythyren, ond mewn gwirionedd priflythyren y sain 'ê' ydyw. Rhoddwyd ystyr i'r hyn dybid (yn anghywir) oedd yn HIS, sef Iesus Hominum Salvator – Iesu Iachawdwr Dynion.

Yr Oen a'r Faner.

Cyfeiriad at ddatganiad Ioan Fedyddiwr am Iesu, 'Wele Oen Duw' (Ioan 1.29), yw'r oen. Mae'n ein hatgoffa ni hefyd o eiriau proffwydol Eiseia, 'fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa' (53.7).

Mae'r groes yn cynrychioli aberth Iesu, a'r faner yn cynrychioli buddugoliaeth. Mae'n bosibl ei fod yma yn sefyll ar ddaear Mynydd Seion (Datguddiad 14.1) – delwedd gyffredin – lle tardd pedair afon Paradwys.



Colomen



Yn eiconograffeg y saint symbol Dewi Sant yw'r golomen, sef cyfeiriad at y golomen ddisgynodd ar ei ysgwydd pan gododd y ddaear dan ei draed yn synod enwog Llanddewibrefi.

Mae ystyron mwy cyffredinol i'w cael hefyd. Yn aml iawn mae colomen yn symbol o'r Ysbryd Glân, hyn yn deillio o'r ddelwedd a gawn ohono yn disgyn ar Iesu fel colomen pan fedyddiwyd ef gan Ioan (Marc 1.10). Mae hefyd yn symbol o gymod a heddwch, delwedd sydd yn tarddu o hanes Arch Noa (Gen. 8.11).

Orb



Ffurf pêl sydd i orb, ac mae'n cynrychioli'r ddaear. Mae'r groes ar ben yr orb yn arwydd o frenhiniaeth Crist dros y byd.

Daeth yr orb yn rhan o regalia brenhinnoedd Cristnogol ers coroni Harri II, Ymerawdr yr Ymerodraeth Lân Rufeinig, yn 1014, ond bu orb heb y groes yn symbol o awdurdod brenhinol ers cyfnod y Rhufeiniad.



Afrlladen a charegl

Darlun o'r bara croyw a'r caregl sydd yn dal y gwin yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid. Yn gfnidir i'r llun gwelr y monogram 'Ihs'.

Offer y Dioddefaint



Darlun o Offer y Dioddefaint: y Groes, tair hoelen, dwy ffrewyll, yr ysbwng, y waywffon a disiau'r milwyr.

PENAWDAU O FESTRI'R PASG 26 Ebrill 2026**Rhys Jones****Rhôl yr Etholwyr:**

Mae nifer rhôl yr etholwyr erbyn hyn yn 96.

Etholwyd y canlynol yn ystod y cyfarfod:-

Warden y Ficer - D Rhys Jones

Warden y Bobl - Delyth M Davies

Aelodau'r Cyngor Plwyf:

Ifer Arch Karl Davies Mairlis Davies Rhys Davies Marian Fairclough Elizabeth Harewood
Elena Hughes Gerallt Hughes Huw Jenkins Dilys Jones Shan Morgan

Adeiladwaith**Prosiect y Toiledau**

Mae gwaith cynnal a chadw wedi eu gwneud i do'r toiledau. Mae dŵr yn anffodus yn llwyddo i ddarganfod ffordd drwy'r welydd ac mae hyn yn golygu bydd angen ychydig o waith ychwanegol dros y misoedd nesaf.

Atgyweirio'r to uwchben y grisiau i'r ystafell llofft

Roeddwn i wedi gobeithio gwneud y gwaith yma erbyn hyn ond yn anffodus oherwydd bod cynllun ad-dalu treth ar gost y prosiect (LPoW) wedi gorffen ganol mis Chwefror 'roeddem ryw £4,000 yn brin ar ein cyllideb i wneud y gwaith. Mae cais grant i'r Esgobaeth wedi ei wneud a gobeithiwn bydd hyn yn llenwi'r bwlch ac yn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud tua diwedd Mai / dechrau Mehefin.

Drysau Mewnol y Porth

Y bwriad yw gwneud cais am hawleb ar gyfer y cynllun yn fuan. Os derbyniwn yr hawleb medrwn fynd ati i wneud ceisiadau am grantiau ar gyfer y prosiect wedi i ni gael amcan bris am y gwaith.

Llain Parcio

Mae'r Pensaer yn paratoi manyleb i fynd allan am amcan brisoedd ar gyfer y gwaith angenrheidiol. Pwrpas hyn yw rhoi gwybod i ni pa gyllideb bydd angen arnom ar gyfer y gwaith.

Adroddiad Cwinquennial

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo wedi derbyn yr adroddiad a bydd hyn yn rhan bwysig o'i waith dros y flwyddyn.

Yswiriant 2026

Mae'r premiwm ar gyfer y flwyddyn wedi codi 40% i £4,169.94. Oherwydd hyn mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cyflwyno grant o £1,165.93 i ni ar gyfer eleni yn unig. Bydd rhaid i ni fel eglwys dalu'r premiwm yn llawn o 2027. Rydym yn talu £347.50 yn fisol ar gyfer y premiwm. Mae'r adeilad a'i gynnwys wedi ei yswirio am £18,290,000.00.

Cyfraniadau ariannol

Hoffai'r Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo a'r Cyngor Plwyfol Eglwysig ddiolch i bawb am eu cyfraniadau dros y flwyddyn 2025.

Ar ddiwedd Rhagfyr 2025, roeddwn yn derbyn taliadau "Rhoi yn Syth" drwy Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru gyda 64 yn cyfannu £2,758.96 yn fisol. Yn ogystal derbyniwyd ad-daliad treth o £675.99 ar y cyfraniadau hyn sydd yn gwneud cyfanswm o £3,434.95.

O'r 64 sydd yn cyfrannu drwy'r system mae 24 yn codi eu cyfraniadau yn Ebrill bob blwyddyn gyda chwyddiant. Yn Ebrill 2026 roedd hyn yn golygu codiad o 3.40% i'r eglwys. Hoffem annog y 40 sydd ddim yn codi eu cyfraniadau yn y modd yma i ail ystyried eu cyfraniadau hwythau. Mae costau cynnal a chadw'r adeilad yn codi yn flynyddol.

Mae'r cynllun "RHOI YN SYTH" yn gymorth mawr i'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cymorth Rhodd. Os hoffai unrhyw un o'n plwyfolion ail-ystyried maint eu cyfraniad misol, mae gan y Trysorydd ffurflenni ar gyfer hyn. Os hoffai unrhyw un arall gyfrannu drwy "RHOI YN SYTH", bydd y Trysorydd yn hapus i drafod y cynllun. Mae ganddo lyfryn pwrpasol ar gael er mwyn ymuno â'r cynllun hwn.

NODER: Er mwyn cyrraedd y swm a ddisgwylir dan y cynllun "Cyfran ar y Cyd (Quota)" dylai pob mynychwr Eglwys Dewi Sant, ar gyfartaledd, gyfrannu o leiaf £12.50 yn wythnosol / £50 yn fisol.

Gŵyl Aberdaron 2026**Siân Eleri Thomas**

12^{ED} BLYNYDDOL
Gŵyl Celf a Beirdd
18 - 21 MEHEFIN 2026
ABERDARON, GOGLEDD CYMRU

Ym mis Mehefin eleni, bydd pen draw Llŷn unwaith eto yn gartref i lwyfan rhyngwladol wrth i 12fed Gŵyl flynyddol Barddoniaeth a Chelf gael ei chynnal yn Aberdaron. Rhwng Mehefin 18 ac 21, bydd y gymuned yn dathlu treftadaeth y ficer a'r bardd R.S. Thomas a'r arlunydd M.E. Eldridge yn y pentref lle buont yn byw ac yn gweithio.

Mae gŵyl 2026 yn un arbennig dros ben, gan nodi 50 mlynedd ers darlith enwog Thomas yn Eisteddfod Genedlaethol 1976, "Ble mae Abercuawg?". Mewn byd sy'n llawn gwrthdaro a chynnydd technolegol, mae'r cwestiwn hwnnw mor berthnasol heddiw ag erioed.

Uchafbwyntiau'r rhaglen:

Dr. Rowan Williams: Yn ymweld ag Ysgol Crud y Werin fore Sadwrn i drafod barddoniaeth, colled, ac alltudiaeth.

Jenny Rowland: Yn archwilio dyfnderoedd emosiynol yr Englynion Cynnar yn y Clwb Hwyllo.

Jason Walford Davies: Yn cyflwyno erthygl "goll" gan R.S. Thomas, Artists at the Year's Turning.

David McBride: Yn trafod y chwilio am ystyr mewn dioddefaint drwy gerdd y "Claf Abercuawg".

Cerddoriaeth: Cyngerdd Schubert Choral nos Sadwrn o dan arweiniad Trystan Lewis, a Chymmanfa Ganu draddodiadol nos Sul yn Eglwys Hywyn Sant.

P'un ai ydych yn chwilio am drafodaeth ddifrifol neu fwynhad cerddorol, mae croeso cynnes i bawb. Am docynnau a'r rhaglen lawn, ewch i www.rsthenaspoetry.co.uk neu chwiliwch am "Aberdaron Poetry and Arts Festival" ar Eventbrite.

Atebion i'r Cwis beiblaidd

Dyma atebion i'r ugain cwestiwn a osodwyd ym mis Ionawr:-

- | | |
|---|---|
| 1. Sawl llyfr sydd yn yr Hen Destament? | 39 |
| 2. Beth yw enw pedwerydd llyfr y Beibl? | <i>Numeri</i> |
| 3. Beth oedd enw gwraig Isaac? | <i>Rebeca (Genesis 24:67)</i> |
| 4. Beth oedd enw chwaer Moses? | <i>Miriam (Numeri 26:59)</i> |
| 5. Ar ba fynydd y derbyniodd Moses y Deg Gorchymyn? | <i>Sinai (Ecsodus 19);</i> |
| 6. Pwy oedd wedi twyllo Samson a thorri ei wallt hir? | <i>Delila (Barnwyr 16:4-22);</i> |
| 7. Beth oedd swydd Samuel? | <i>Proffwyd (I Samuel 3:19-21);</i> |
| 8. Pwy oedd tad y Brenin Dafydd? | <i>Jesse (I Samuel 16:1-13);</i> |
| 9. Pa offeryn cerddorol oedd y Brenin Dafydd yn hoff o'i ganu? | <i>Y delyn (I Samuel 16:14-23);</i> |
| 10. Beth yw rhif y Salm sydd â 176 o adnodau iddi? | <i>Salm 119 – Y Salm Fawr;</i> |
| 11. Pa broffwyd a gafodd ei daflu i waelod ffynnon? | <i>Jeremeia (Jeremeia 38:9);</i> |
| 12. Pa Efengyl yw'r fyrraf? | <i>Efengyl Marc - 16 o benodau</i> |
| 13. I ba wlad yr oedd yn rhaid i Mair, Joseff a'r plentyn Iesu ffoi iddi oherwydd y Brenin Herod? | <i>Yr Affit (Mathew 2:13-15);</i> |
| 14. Beth oedd oedran Iesu pan gollodd ei rieni ef yn deml? | <i>12 mlwydd oed (Luc 2:41-52);</i> |
| 15. Pan dderbyniodd Iesu wahoddiad i ddarllen yn y Synagog yn Nasareth, o ba sgrôl y darllenodd? | <i>Sgrôl y proffwyd Ezeia (Luc 4:16-20)</i> |
| 16. Beth oedd enw'r disgybl a ddaeth o hyd i'r pum torth o fara a'r ddau bysgodyn? | <i>Andreas (Ioan 6:8) Testun ffenestr liw ddwyreiniol EDS</i> |
| 17. Beth oedd enw'r disgybl a gymerodd le Jwdas Iscariot? | <i>Mathias (Actau 1:12 – 26);</i> |
| 18. Beth oedd enw Paul cyn ei droedigaeth? | <i>Saul (Actau 9);</i> |
| 19. Ym mha lythyr y mae Paul yn ysgrifennu am Onesimus? | <i>Philemon;</i> |
| 20. Ar ba ynys oedd Ioan pan ysgrifennodd Lyfr y Datguddiad? | <i>Ynys Patmos (Datguddiad 1:9).</i> |

Pobl y plwyf

CYMDEITHASU MIS EBRILL

Cafwyd ymweliad pleserus yn llawn mwynhad â Chastell Ffŵl-y-mwn. Roedd y croeso'n gynnes ac fe gawsom ein tywys trwy hanes y Castell o'i sefydlu gan y teulu Normanaidd St John yn y 12fed Ganrif hyd at Cyrnol Philip Jones o Langyfelach a fu'n gynhorthwy dylanwadol i Oliver Cromwell yn ystod y Weriniaeth yn yr 17eg Ganrif. Bu teulu'r Jonesiaid yn berchen y Castell tan 2019 pan y'i gwerthwyd i ddyn o Orllewin Cymru a oedd wedi gwneud ei ffortiwn yn gwerthu hadau blodau gwylltion! 'Rhyfel a Rhamant' oedd y ddwy thema fawr a oedd wedi llywio hanes y lle dros y canrifoedd. Ar ôl treulio'r bore yn dysgu am yr hanes a chrwydro'r ystafelloedd crand a chael cinio blasus ac hamddenol, cafwyd cyfle i grwydro'r gerddi a oedd yn werth eu gweld.

Diolch i bawb a ddaeth ar yr ymweliad a'i wneud yn gymaint o lwyddiant, a diolch yn arbennig i Shân Morgan am drefnu'r cyfan mor ofalus. Gweithiodd popeth fel jam!



**Pererindod Haf EDS
Dydd Iau 27 Awst 2026
Eglwys Gadeiriol
Aberhonddu**





Helen Beale yn cwrdd ag
Archesgob newydd Caergaint, y
Parchedcaf Sarah Mulally



Gwahoddwyd Dyfrig i bregethu yng
ngwasanaeth blynyddol Gwyl Dewi yn San
Steffan



Dathlu Gwyl Dewi - ein pregethwr gwadd, y
Parchedig Andrew Sully yng nghwmni ein ficer
a'n curad



Blodau'r Pasg

**Gwahoddir deunydd ar gyfer y
rhifyn nesaf erbyn Awst 31ain
2026. Cysylltwch â'r golygydd
Wyn Mears ar
wyn@wynmears.com**

Arglwydd dysg i ni weddio

**cymorth
cristnogol
christian
aid**

Grym Anorchfygol Gobaith

O Arglwydd Dduw Cyfiawnder,
Gwaredwr cryf y gwan,
agor ein llygaid inni weld
y ffordd i wneud ein rhan.
Cymer ni
gyda thi
ac fe dorrwn rwyau lu.
Cymer ni
gyda thi
ac fe dorrwn rwyau lu.

O Arglwydd Ddiw gwirionedd,
y Golau fu'n y gwir,
O cod ein gwlad yn uchel fan
yn llwyfan i dy air.
Cymer ni
gyda thi,
trechwn anwireddau lu.
Cymer ni
gyda thi,
trechwn anwireddau lu.

O Arglwydd Dduw gogoniant,
rho inni'th Ysbryd Glân
I wneud y pethau mawrion
a'u gweld yn bethau mân.
Cymer ni
gyda thi,
gwelwn rhyfeddodau lu.
Cymer ni,
gyda thi,
gwelwn rhyfeddodau lu.

Grahame Davies

*(Ar achlysur pen blwydd Cymorth Cristnogol yn 80.
Cerdd yn seiliedig ar bregeth olaf Dewi Sant).*

Ar gyfer eich dyddiadur

Mai 2026

Nos Fercher 13 Mai

7.00pm Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd
Eglwys Fethodistaidd yr Eglwys Newydd

Dydd Sadwrn 16 Mai

10.30am Coffi a Chlonc yn neuadd yr Eglwys

Dydd Sul 17 Mai

Stondin Cynnyrch Cartref Cymorth Cristnogol

Nos Wener 22 Mai

6.30pm Cinio Cytûn Dinas Caerdydd a'r Bae
Valentino's Windsor Place

Dydd Sul 24 Mai – Y Sulgwyn

8.00am Y Cymun Bendigaidd
10.30am Y Cymun Bendigaidd ar gân
6.00pm Yr Hwyl Weddi a Phregeth

Nos Iau 28 Mai

7.30pm Cymdeithasu'r Eglwys
Noson yng nghwmni Beti Williams

Dydd Sul 31 Mai – Sul y Drindod

10.30am Y Foreol Weddi ar gân a Phregeth
6.00pm Y Cymun Bendigaidd

Mehefin

Dydd Mawrth 2 Mehefin

1.00pm Cyngerdd Awr Ginio
Michael Collins (Clarinettydd) a Ffrindiau

Dydd Gwener 12 Mehefin

1.15pm Datganiad Organ Dr Peter King (Abaty Caerfaddon)

Dydd Sadwrn 20 Mehefin

10.30am Coffi a Chlonc yn neuadd yr Eglwys

Nos Wener 26 Mehefin

6.30pm Barbeciw Blynyddol yr Eglwys yn Hafod Lon

Gorffennaf

Dydd Mawrth 7 Gorffennaf

1.00pm Cyngerdd Awr Ginio James Morley (Sielydd)

Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf

1.00pm Cyngerdd gan yr Elizabeth Singers

7.30pm Cyngerdd gan Gôr Cymunedol y Rhath
(Roath Community Choir)

Nos Iau 16 Gorffennaf

7.30pm Cymdeithasu'r Eglwys
Noson yng nghwmni Siwan Seaman

Dydd Sadwrn 18 Gorffennaf

10.30am Coffi a Chlonc yn neuadd yr Eglwys